# Cymunedau Creadigol AHRC

**Pecyn Cymorth - Modiwl 3:**
Arferion gorau o ran cynnal trefniadau cydweithio traws-sector

Nod y modiwl pecyn cymorth Cymunedau Creadigol hwn yw eich helpu i sefydlu trefniadau cydweithio traws-sector, datblygu partneriaethau a gwella eich gallu i gymryd rhan mewn ymchwil a datblygu.

Mae Modiwl 3 yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn:

**Modiwl 1:** Ymchwil a Datblygu Cymunedol: Sut i gymryd rhan mewn ymchwil a datblygu diwylliannol fel cymuned greadigol

**Modiwl 2:** Cyfleu Arloesedd: Sut i rannu a phroffilio eich ymchwil fel cymuned greadigol

Creative Communities

Arts and Humanities Research Council

Northumbria University NEWCASTLE

## Beth yw cydweithio traws-sector?

- Gweithredwyr amrywiol o'r gymuned, llywodraeth, addysg, cyrff hyd braich, y trydydd sector a'r sector preifat yn cydweithio mewn menter sy'n seiliedig ar leoedd
- Mae'n cyflwyno diwylliant newydd ac yn creu gwerth ychwanegol
- Mae'n creu sgil-effeithiau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i'r gymdeithas ehangach
- Mae'n dod â sgiliau newydd, profiad, gwybodaeth a rhwydweithiau i'r maes ymchwil a datblygu
- Mae'n manteisio i'r eithaf ar adnoddau drwy weithio'n agosach ar heriau cyffredin



## Beth yw gwerth cydweithio traws-sector?

- ✓ Mae'n cynnig gwerth cymdeithasol, economaidd a diwylliannol i bartneriaid a lleoedd
- ✓ Mae'n rhannu gwybodaeth ac yn rhoi llais i gymunedau mewn penderfyniadau lleol
- ✓ Mae'n denu partneriaid i fynd i'r afael â heriau cyffredin, gan wneud ymchwil yn rhywbeth sy'n cael ei wneud gan unrhyw un, ac sy'n digwydd ym mhob man
- ✓ Mae'n cyd-greu ac yn cyfnewid arloesedd drwy ymgysylltu ar draws sectorau
- ✓ Mae'n cynnig modelau effeithiol ar gyfer rhwydweithio, datblygu gwybodaeth a buddsoddi
- ✓ Mae'n meithrin perthnasoedd i rannu adnoddau a rhwydweithiau
- ✓ Mae'n cysylltu arweinwyr drwy sbarduno rhwydweithiau a chysylltiadau annisgwyl sy'n creu gwerth
- ✓ Mae'n canolbwyntio gymaint ar y broses â'r cynnyrch
- ✓ Mae'n creu atebion cynaliadwy drwy wneud ymchwil a datblygu a chymunedau'n fwy agored i gyfleoedd a gwybodaeth mewn sectorau newydd
- ✓ Mae'n ymgysylltu â phartneriaid amrywiol ac yn harneisio diwylliannau lleol, gan godi ymwybyddiaeth o bolisi ar lefel ranbarthol a chyfrannu at lunio polisïau cenedlaethol
- ✓ Mae'n cynhyrchu adnoddau mynediad agored sy'n creu newid y tu hwnt i gylch bywyd ymchwil a ariennir
- ✓ Mae'n cyflymu'r effaith gan adeiladu ar yr wybodaeth bresennol i ehangu ymgysylltiad, ychwanegu gwerth a datblygu cyfleoedd


Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE

# Meithrin gallu i gyd-greu

Ar ôl i chi sicrhau partneriaid eich cymuned greadigol a phennu nodau cyd-greu, dylid ystyried sut i feithrin gallu i gyd-greu:

- Defnyddio methodolegau creadigol i ddatgloi sgiliau traws-sector a rhannu profiadau amrywiol
- Amlygu gwybodaeth gymunedol a phrofiadau cydweithio
- Defnyddio dull hirdymor cynaliadwy i sicrhau mai pobl sy'n gyfarwydd â'r maes o ddiddordeb sydd wrth wraidd y gwaith cynllunio
- Sicrhau partneriaethau teg lle mae'r holl arbenigedd a gwybodaeth yn cael eu trin yn gyfartal
- Adolygu'r gwaith ymchwil presennol fel bod gan eich cymuned greadigol sylfaen a sail dystiolaeth gadarn
- Ymgynghori â'ch cymuned greadigol i ddeall y dulliau ymgysylltu a ffefrir: dylunio dulliau yn unol â hynny er mwyn datblygu arferion gorau
- Sicrhau yr hysbysir cyfranogwyr, eu bod yn ymwybodol o'u rôl, a'u bod yn teimlo bod eu cyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi
- Bod yn realistig wrth osod nodau a'r hyn y gallwch ei gyflawni: peidiwch â thanamcangyfrif faint o waith sydd ei angen na goramcangyfrif y cyfraniad y gall partneriaid ei wneud
- Monitro i atal cyllidebau rhag gor-redeg; sefydlu canllawiau cost a meincnodau ar gyfer gweithgareddau i sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol
- Sganio'r gorwel am gyfleoedd cyllido ar gyfer cydweithio traws-sector cymunedau creadigol i sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol


## Enghraifft o Gymunedau Creadigol AHRC:

Defnyddiodd **Áine Brady, Ymarferydd Arloesi Cymunedol,** ddulliau creadigol arloesol yn ei gwaith gyda chanolfan gymunedol yng Ngogledd Iwerddon, gan weithio mewn partneriaeth ag artistiaid a oedd yn defnyddio dulliau celfyddydol, gan gynnwys drama, barddoniaeth, ysgrifennu creadigol a ffotograffiaeth.

Roedd hyn wedi galluogi'r cyfranogwyr i drosi emosiynau, meddyliau a theimladau – fel pryder, trawma a chywilydd – yn gyfryngau geiriol a di-eiriau i roi llais i brofiadau bywyd a'u rhannu.



# Datblygu Partneriaethau



Gall partneriaethau fod yn rhan annatod o greu capasiti, tyfu sgiliau a chodi proffil ymchwil a datblygu eich cymuned greadigol:

- Ymgysylltu â phartneriaid yn gynnar yn y broses gydweithredol – mae hyn yn annog mabwysiadu a gweithredu canfyddiadau ymchwil neu gynnyrch pan fydd aelodau'r gymuned wedi helpu i'w llunio
- Archwilio popeth mae eich partneriaid yn ei gynnig o ran adnoddau, gwybodaeth a sgiliau er mwyn cael gwell dealltwriaeth a chanfod ffyrdd o wella capasiti
- Adeiladu adnoddau drwy rannu gwybodaeth ac atebion cyfrannu torfol
- Darparu hyfforddiant neu gyfeirio at adnoddau fel bod eich partneriaid ac aelodau'r gymuned yn gallu meithrin gallu a sgiliau
- Sicrhau dulliau cyfathrebu clir i reoli disgwyliadau ac atal siom neu gamddealltwriaeth
- Rhoi strategaethau ar waith i gynyddu nifer y partneriaid a meithrin rhwydweithiau fel bod pawb yn elwa

## Cymunedau Creadigol AHRC:

Drwy ymchwil **Alexander Langlands, Ymarferydd Arloesi Cymunedol**, daeth cymuned o arferion treftadaeth i'r amlwg gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, a charfan o fyfyrwyr coleg addysg bellach.

Ysgogodd hyn y broses o sefydlogi adfail hanesyddol fel rhan o uchelgeisiau creu lleoedd y gymuned ar gyfer Parc Gwledig Craig Gwladus yng Nghymru.



## Yn barod am ragor o wybodaeth?

Mae **Modiwl 4** yn canolbwyntio ar **Gyd-greu Polisi Diwylliant:**

- Sut mae defnyddio cyd-lunio wrth lunio polisïau
- Sut mae troi eich ymchwil a datblygu yn sylfaen dystiolaeth
- Sut mae gwneud argymhellion i lunwyr polisïau

Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE